**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Dachwedd, 2023.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Jones (Cadeirydd), Iddon Edwards, Jess Williams, (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Clifford Williams, Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Sarah Jones (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), John Till (Golan), Stephen Churchman a June Jones (Cyngor Sir Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RW yn cynnig a MJ yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | <u>Pont y Traeth:</u> Adroddodd y Clerc fod arolwg o'r bont wedi'i wneud a bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gobeithio cael y gwaith wedi'i wneud cyn diwedd mis Tachwedd. Clerc i gysylltu hefo YGC i gadarnhau pa waith fydd yn cael ei wneud.<br><br><u>Digwyddiad Tai yng Ngofal y Gymuned yn Gongl Meinciau, Botwnnog</u>: Bu i Iddon fynychu'r digwyddiad fel rhan o'i swydd dydd i ddydd. Adroddodd fod llawer o siaradwyr gwadd yno, llawer o gymunedau hefyd sydd â diddordeb yn y cynllun ac mai'r her fwyaf oedd adnabod tir.<br><br><u>Bwlch y Moch:</u> Rhannwyd cofnodion y cyfarfod hefo'r Cynghorwyr Cymuned i gyd. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael sgwrs gydag Andrew Gregson yn ddiweddarach yn y dydd. Dywedodd ei fod wedi ymweld â'r safle dydd Gwener ddiwethaf (27/10/23) ac nad oedd prin neb yno bryd hynny ond, dywedodd o'r lluniau anfonwyd ato nad yw'r parcio yn cael effaith ar y llif traffig ac felly does dim all o wneud yn anffodus. Mae yn gweld bod yna elfen ddiogelwch ond yn anffodus nid yw'r canllawiau gan y Llywodraeth yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt fel Cyngor i allu newid cyfyngiadau cyflymder. Dywedodd bod yna ganllawiau newydd allan mis Hydref nesaf ac y gall hyn newid. Soniodd mai'r unig beth all o wneud i geisio helpu'r sefyllfa ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yw rhoi ysgrifen "Araf/Slow" |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar y ffordd yn y ddau gyfeiriad a hefyd rhoi arwydd i fyny yn dweud "lleiniau meddal" i geisio atal dringwyr rhag parcio ar yr ymylon. Penderfynwyd derbyn y cynlluniau yma. Clerc i gysylltu yn ôl hefo Andrew.<br><br>Cafwyd e-bost gan Jo Wallbanks o Glampio Hadfer yn sôn eu bod hefyd wedi gostwng y ffi parcio 12 awr i £5.20 yn y gobaith y bydd hyn hefyd yn help i ostegu'r sefyllfa parcio ar yr ymylon.<br><br>Clerc i drefnu cyfarfod arall yn y flwyddyn newydd.<br><br><u>Prenteg:</u> Adroddodd y clerc nad oedd wedi clywed dim yn ôl gan Briffyrdd am wneud y ffordd gul yn unffordd yn unig. Soniodd GE bod yna ysgrifen ar y ffordd yn arfer bod yn dweud "Dim Mynediad" ac nad oedd yna bellach a'i fod angen ei ail osod yno. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd eto.<br><br><u>Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn:</u> Adroddwyd bod dau gyfarfod safle buddiol a llwyddiannus wedi cael eu cynnal. Bod gwaith o glirio'r safle wedi cychwyn. Mae'r gwaith o brisio torri coed, trin llysiau'r gingroen, tynnu tanciau $CO_2$ a thynnu'r generadur a'r tanciau olew wedi ei wneud. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn digwydd yn fuan wan. Diolchwyd i Dŵr Cymru am gytuno i gyfarfod ac am weithredu mor gyflym. |
| 7. | Mynwentydd: | <u>Mynwent Prenteg</u>: GE wedi ymweld â'r fynwent eto a heb gael dim trafferth mynd fyny'r ffordd mewn cerbyd isel.<br><br><u>Mynwent Ynys Cynhaearn:</u> HP wedi ymweld ac mae'r fynwent yn daclus dros ben,<br><br><u>Mynwent Bethel, Golan:</u> JJ wedi ymweld ac mae'r fynwent yn daclus. Adroddodd fod yna fin newydd wedi ei osod gyda chlo arno. Soniodd nad oedd y goriad yn sownd i unrhyw beth a bod peryg i'r goriad gael ei golli. Clerc i gysylltu hefo Veolia.<br><br>JJ hefyd wedi gwneud cyfrifiad bras o faint o le claddu sydd ar ôl yn y fynwent. Adroddodd bod oddeutu lle i 150 ar yr ochr dde a 200 ar yr ochr chwith. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | <u>Llwybr o Ynys Cynhaearn i Lan y Môr:</u> Adroddwyd bod y llwybr yma angen sylw. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir bod llwybr cyhoeddus yn bodoli. Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bron y Foel a Bryn Melyn: Adroddwyd nad yw'r arwyddbyst byth wedi eu gosod. Clerc i holi Swyddog Llwybrau.<br><br>Garndolbenmaen: Braf oedd gweld fod grŵp o gerddwyr o Ynys Môn wedi bod yn cerdded llwybrau Garndolbenmaen yn ddiweddar ac wedi mwynhau yn fawr. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | Pentrefelin: Adroddwyd bod angen glanhau'r amserlen bysus yn y pentref. Clerc i drefnu. Soniwyd hefyd bod y lôn gefn o ganol y pentref i Benmorfa angen sylw. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd.<br><br>Soniwyd bod yna wasanaeth ym Mhentrefelin ar ddydd Sul y Cofio am 11:15.<br><br>Penmorfa: Dim i'w adrodd.<br><br>Garndolbenmaen: Adroddwyd ei bod yn anodd gweld y cyffyrdd i mewn i Garndolbenmaen yn y tywyllwch. Clerc i gysylltu hefo'r Asiantaeth Gefnffyrdd.<br><br>Bryncir/Glandwyfach: Adroddwyd pryder am ddiogelwch y gyffordd yng Nglandwyfach. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Gefnffyrdd i drefnu cyfarfod safle.<br><br>Sonwyd bod un neu ddau o etholwyr wedi sôn am oleuadau allanol Tafarn yr Afr a pha mor llachar ydynt yn y tywyllwch ac eu bod yn amharu ar welededd wrth yrru yn y tywyllwch. Clerc i godi'r mater yma hefo'r Adran Gefnffyrdd hefyd.<br><br>Prenteg: Soniwyd fod y bwrdd picnic wedi diflannu o'r cae chwarae. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Fwrdeistrefol i ofyn amdano yn ôl.<br><br>Adroddwyd fod Dŵr Cymru wedi ceisio agor y falf ar yr hydrant ger Plas Portreuddyn ac wedi methu ac wedi gorfod codi'r bocs ac mae'r bocs rŵan yn eistedd uwchben y ffordd. Clerc i gysylltu hefo Dŵr Cymru.<br><br>Golan: Adroddwyd fod y coed ger yr Afon Ddu wedi cael eu torri. Soniwyd hefyd nad yw'r set yn yr arosfa bws wedi cael ei ailosod. JJ i ddilyn y mater yma i fyny. |
| 10. | Archwiliad Allanol | Adroddwyd bod yr archwiliad allanol wedi ei gwblhau yn llwyddiannus. Yr unig sylwad gafodd ei wneud gan yr archwilydd oedd bod y cyfrifon heb gael eu cymeradwyo gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | y Cyngor Cymuned cyn y 30ain o Fehefin. Bu i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo ar y 6ed o Orffennaf a'r rheswm am hyn oedd am na dderbyniwyd y cyfrifon yn ôl gan yr archwilydd mewnol tan yr ail wythnos ym mis Mehefin. Clerc i gysylltu gyda'r archwilydd allanol i egluro hyn. |
| 11. | Rhoddion Ariannol | Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Y Wylan a'r Ffynnon i hysbysebu'r ffaith bod posib gwneud cais am rodd ariannol gan y Cyngor Cymuned. Dyddiad Cau: 31ain Rhagfyr 2023. |
| 12. | Gohebiaeth: | a. Cyngor Gwynedd – Caead Argyfwng o'r ffordd o'r A487 cyffordd Corsoer i Ddrws Deugoed, Golan – 4ydd o Hydref, 2023. *Rhannwyd. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddweud fod y rhybudd yn anghywir – rhybudd yn dweud Croesor yn lle Corsoer.*<br>b. Cyngor Gwynedd – Cau Llwybr Cyhoeddus. Cyflwr dirywiedig Pont Ystumcuddiedig. *Rhannwyd.*<br>c. Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Ardal Dwyfor (8) 2023. *Rhannwyd.*<br>ch. Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith Mis Tachwedd, Cefn Meysydd Uchaf – Gwaith Cyrbio. *Rhannwyd.* |
| | Gohebiaeth Ychwanegol: | a. Comisiynydd Pobl Hŷn – Arolwg. *Rhannwyd.*<br>b. Unllais Cymru – Cyflwyniad Rhian Hughes am roi wifi cyhoeddus mewn trefi a phentrefi. *Rhannwyd.*<br>c. Cyfoeth Naturiol Cymru – Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog. Rhannwyd. *Adroddwyd nad oedd dim gwybodaeth ychwanegol i'r un diwethaf.*<br>ch. Unllais Cymru – Adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref. *Rhannwyd.*<br>d. HMRC – Credyd o £59.76 ar y cyfrif. *Clerc i dalu llai mis yma.* |
| 13. | Cynllunio: | **Rhestrau:** 2/10, 9/10, 16/10, 23/10<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**NP2/16/T413J:** Beudy Mawr, Erw Suran, Cwm Ystradllyn. LL51 9BQ. Adeiladu storfa/sied unllawr i ochr tŷ. *Dim gwrthwynebiad dim ond iddo aros i fod yn storfa/sied.*<br><br>**NP2/16/79Y:** Parc Carafanau Aberdunant, Prenteg, LL49 9SR. Creu parc solar arfaethedig ar hen dir gwastraff chwarel. *Dim gwrthwynebiad.* |
| 14. | Materion Ariannol: | **Ceisiadau am arian:** Ambiwlans Awyr<br>Theatr Bara Caws |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cylch Meithrin y Gorlan Fach<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br>Cyflog Clerc £282.35<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 10.64<br>HSBC Costau £ 8.00<br>Veolia £ 23.53<br><br>**Derbyniadau:** **Dim**<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>**Cadw:** £41,059.31 **Cyfredol:** £1,619.71<br>. |
| 15. | Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan: | Rhoddion Ariannol<br>Gwaith Dŵr Cwmystradllyn<br>Bwlch y Moch<br>Cynllunio<br>Cyffordd Glandwyfach |